PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 156 Rhif 33/34 Awst 17/24, 2023 50c.

## Mawr lawenydd

Yr oedd y dyddiad Sadwrn, 29 Gorffennaf 2023 yn un y bu disgwyl eiddgar amdano gan eglwys a chynulleidfa Nebo, Felindre, am mai dyma ddyddiad sefydlu'r Parchedig W. Rhys Locke. Ers ychydig amser ar ôl ymddeoliad trist y Parchedig Owen Watcyn Pugh o ganlyniad i salwch, mae'r eglwys hon wedi ymdrechu i fynd ymlaen heb yr un gweinidog ond daeth yr angen am fugail yn fwyfwy amlwg yn ddyddiol. Yn ddiweddar penderfynwyd rhoi galwad i'r Parchg W. Rhys Locke, yr hwn, er mawr lawenydd inni a atebodd yn gadarnhaol.

Ar brynhawn dydd Sadwrn, am 4 o'r gloch, dechreuwyd y Cyfarfod Sefydlu yn eglwys Nebo gan y Llywydd, y Parchg Meirion Evans, Porth Tywyn, a phregethwyd ar 'Iesu yn y canol' gan y Parchg Beti Wyn James, cyn-lywydd yr Undeb. Holwyd y gofyniadau arferol gan y Parchg Guto Llywelyn, y rhai a atebwyd yn fyr, trefnus, a gafaelgar. Rhoddwyd arwyddion o fodlonrwydd a chymeradwyaeth o'r undeb trwy dystiolaeth yr alwad gan Mrs Phyllis Bell ar ran eglwys Nebo , ac yna gan Rhys. Yna offrymwyd yr urdd weddi gan y Parchg Gareth Morgan Jones, Rhyd-y-fro. Cafwyd cyfarchion cynnes iawn gan Gyfundeb Gorllewin Morgannwg gan Dr Christian Williams, Penclawdd a chan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg gan y Parchg Dyfrig Rees, yr Ysgrifennydd Cyffredinol. Yn ogystal â'r uchod roedd y gweinidogion canlynol yn bresennol sef y Parchedigion Tomos Young, Vincent Watkins, Dewi Myrddin Hughes, Gerald Jones, Neil Perington,

*parhad ar dudalen 2*



## Clwb plant a chlwb ieuenctid Hope-Siloh, Pontarddulais

Ers deuddeg mlynedd bellach, mae clwb plant a chlwb ieuenctid Hope-Siloh wedi cwrdd yn wythnosol yn ystod y tymor ysgol ar nos Sul yn y festri fawr. Hyd yn oed yn ystod y cyfnod clo, cafwyd llawer o hwyl yn cwrdd ar Zoom gyda gemau dyfeisgar iawn yn cael eu cyflwyno dros y we! Ar hyd y blynyddoedd, mae mwynhau gweithgareddau amrywiol wrth ddysgu am Iesu Grist wedi bod yn ganolog i lwyddiant y clybiau, yn ogystal â mwynhau danteithion melys a phitsa! Daeth tymor arall llwyddiannus i ben i'r clwb plant ddiwedd Mehefin gyda pharti pitsa, gweithgareddau crefft a sioe dalent. Yn ôl yr arfer bu i dymor y clwb ieuenctid gloi ym mis Gorffennaf gydag ymweliad â bwyty Chillies.

Fel eglwys diolchwn yn ddiffuant i holl arweinwyr y clybiau am eu gwaith yn ystod y flwyddyn, ac am eu brwdfrydedd yn cyflwyno efengyl Iesu Grist mewn dulliau cyfoes a pherthnasol i'n plant a'n ieuenctid. Wedi saib dros yr haf, edrychwn ymlaen yn eiddgar i gwrdd unwaith yn rhagor ym mis Medi!

**Marie-Lynne Jones**





# Mawr lawenydd – *parhad*

Brenig Davies, Catrin Ann Thomas, Emyr Gwyn Evans a Llewelyn Picton Jones. Yn cyfeilio ar yr organ roedd Mrs Eiri Evans-Jones, organyddes Nebo ac yn cyfieithu ar gyfer yr oedfa oedd Dr Fiona Gannon. Mawr yw ein diolch i'r uchod.

Cafwyd cyfarfod rhagorol, cynulleidfa luosog, canu bendigedig a hwyl grefyddol. Yr oedd ymddangosiad pawb yn tystio mai da oedd i ni fod yma, fod gwenau'r Arglwydd arnom. Hyderwn y bydd i fendith Duw ddilyn y briodas hon yn Nebo a'r holl aelodau yn cefnogi'r ymdrechion dros Grist yn Felindre.

**Mrs P. Bell**
**Ysgrifennydd Eglwys Nebo**



# Eglwys Brynteg yn croesawu a'n diolch



*Mr David Davies, trysorydd eglwys Brynteg yn derbyn siec o law Mrs Jane Jones, trysorydd eglwys Bethel. Hefyd yn y llun mae gweinidog eglwys Brynteg, y Parchedig Chris Bolton (rhes gefn, cyntaf ar y chwith) ynghyd â swyddogion ac aelodau'r ddwy eglwys*

Ar ôl 139 o flynyddoedd, daeth aelodau eglwys Bethel, Drefach, Llanybydder i'r penderfyniad anodd yn ôl yn 2019 fod yr amser wedi dod i ddatgorffori'r eglwys a daeth y broses i ben yn swyddogol ym Mehefin 2023 . Er mai trist yw gweld aelodaeth ein capeli'n lleihau a'r drysau'n gorfod cau, ymfalchïwn fod nifer o aelodau Bethel wedi mabwysiadu eglwys Brynteg, Llanwenog fel eu cartref ysbrydol ac iddynt ddod yn aelodau yma. Gwerthfawrogir yn fawr hefyd fod cronfa ariannol Bethel wedi ei throsglwyddo, yn ei chyfanrwydd i Eglwys Annibynnol Brynteg.

Er bod y drws bellach ynghau, mae'r atgofion yn parhau ac mae geiriau Gillian Jones, a oedd yn un o ymddiriedolwyr Bethel, yn crynhoi ei theimladau hi, a theimladau nifer o rai eraill, i'r dim mae'n siŵr:

A ninnau yma ynghanol ein briw
Mae'r drws wedi'i gloi ond mae'r Gair yn fyw.

**Catrin Bellamy-Jones**
(Ysgrifennydd eglwys Brynteg)

# Paid â gwneud i neb yr hyn sydd gas gennyt.

**Tobit 4:15(Apocryffa)**

Pa beth bynnag y dymunwch i ddynion ei wneud i chwi, gwnewch chwithau felly iddynt hwy, hyn yw'r Gyfraith a'r proffwydi. Mathew 7: 12

Cyfansoddir y byd mawr 'ma o ddau brif ddosbarth – nyni a phobl eraill, neu fyfi ac arall. A phroblem mawr bywyd yw sut i ymddwyn tuag at arall yn ei berthynas â ni. Sut y cyfrifwn ef? Ai fel gelyn? Ai fel cystadleuydd? Ai fel cyfaill? Yn ôl y berthynas y bydd ein hymddygiad. Os gelyn ydyw, ymladdwn ag ef er mwyn ei orchfygu. Os cystadleuydd, fe'i gwyliwn er mwyn ei drechu. Os cyfaill, fe'i carwn er mwyn ei gynorthwyo.




Beth wnawn ni ohono? Pa beth a wnawn iddo? Athroniaeth llawer ohonom yw ei osgoi tra gallom, a dygymod ag ef tra bo orfod arnom.

Myfi ac arall – pa un yw'r pwysicaf? 'Myfi' yw'r ateb a ddaw gyntaf i bawb ohonom, a hynny'r reddfol. Dymunwn gael bod fel haul yn ein cyfundrefn heulog, a phob planed yn ein ffurfafen yn troi o'n cylch ni. Daw'r 'hunan' yma, weithiau, o flaen pob dim arall. Mae Tobit yn cydnabod hynny, a chymer fantais arno.

Gwyddost yn reddfol beth sydd gas gennyt, felly: 'Paid â gwneud i neb yr hyn sydd gas gennyt.' Dyna droi'r 'hunan' i wasanaeth uwch, sef i rybuddio person sut i ymddwyn tuag at arall. Pe dilynid y rheol hon, ni fyddai dim lladd, na lladrata, na thwyllo, na therfysg, na rhyfel, na chwaith ddolurio teimladau neb.

*parhad ar dudalen 11*


# Myfyrdod o'r Beibl

## Y Beibl a'i bobl 1: Adda ac Efa

Mae hanes Adda ac Efa i'w gael yn Genesis 1–4. Ar ôl i Dduw greu'r byd a'r bydysawd, y mynyddoedd a'r moroedd, y blodau a'r bananas, yr awyr a'r adar, y morgrug a'r morfilod, ar y chweched dydd mae'n creu'r bobl gyntaf: Adda ac Efa. Yn wahanol i bob creadur arall, mae Duw'n creu Adda ac Efa ar ei 'lun a'i ddelw' ei hun. Sylwch ar sut mae hyn yn cael ei bwysleisio yn Genesis 1:26–27:

> Dywedodd Duw, 'Gwnawn ddyn ar ein delw, yn ôl ein llun ni, i lywodraethu ar bysgod y môr, ar adar yr awyr, ar yr anifeiliaid gwyllt, ar yr holl ddaear, ac ar bopeth sy'n ymlusgo ar y ddaear.' Felly creodd Duw ddyn ar ei ddelw ei hun; ar ddelw Duw y creodd ef; yn wryw ac yn fenyw y creodd hwy.

Beth mae'n ei olygu fod Duw'n creu Adda ac Efa a'r ddynoliaeth gyfan ar ei lun a'i ddelw ei hun? Yn fwyaf sylfaenol, gan mai dynoliaeth yn unig sydd wedi ei chreu ar lun a delw'r Creawdwr, mae gan bobl urddas, gwerth a statws arbennig. Mae Duw wedi'n creu ni i fwynhau perthynas arbennig ac unigryw gydag ef. Mae wedi'n creu ni i 'lywodraethu' y byd ar ei ran – nid fel teyrn barus ond fel stiwardiaid gofalus. Hefyd, fel mae'r *Beibl Canllaw* yn ei nodi, mae cael ein creu ar 'lun a delw' Duw yn golygu ein bod yn gallu 'ymresymu, gwahaniaethu rhwng da a drwg, siarad, mwynhau perthynas ag eraill sy'n seiliedig ar gariad ac ymrwymiad, a mesur o awdurdod dros y greadigaeth' (t. 2).




### Perthynas Arbennig

Yn Genesis pennod 2, rydym yn gweld Adda ac Efa'n mwynhau'r berthynas arbennig hon gyda Duw fel creaduriaid sydd wedi'u creu ar ei lun a'i ddelw. Yng Ngardd Eden, mae Adda'n enwi'r anifeiliaid gan ymarfer y stiwardiaeth mae Duw wedi'i rhoi iddo dros y greadigaeth (Genesis 2:18–20). Yn Eden hefyd mae Duw yn ordeinio cyfamod priodas wrth i Adda ac Efa ddod yn ŵr a gwraig i'w gilydd (Genesis 2:21–24). Mewn gair, mae pobl yn mwynhau perthynas ddedwydd â Duw ac â'i gilydd. (Genesis 3:8).

Y tristwch amdani ydy fod y berthynas arbennig hon rhwng Duw a phobl yn cael ei chwalu yn Genesis pennod 3. Wedi i'r sarff demtio Efa, mae'r ddau yn bwyta ffrwyth y goeden mae Duw wedi'i gwahardd (Genesis 3:6). Nid rhywbeth mympwyol a bach yw hyn ond gweithred o wrthryfel a gwrthwynebiad. Trwy fwyta'r ffrwyth, roedd Adda ac Efa'n datgan wrth Dduw eu bod yn gwybod yn well nag ef a'u bod yn gallu byw hebddo. Mewn gair, trwy fwyta'r ffrwyth, roedd Adda ac Efa'n troi eu cefnau ar Dduw a'u ddaioni tuag atynt gan danseilio'r berthynas oedd yn bod rhyngddynt. Gan fod Duw'n dda ac yn cymryd cyfiawnder o ddifrif, mae'n cosbi Adda ac Efa am eu drygioni trwy eu taflu allan o'r ardd (Genesis 3:23). Trwy eu gweithred wrthryfelgar a hunanol, daeth pechod a marwolaeth i'r byd am y tro cyntaf gan effeithio ar y cosmos cyfan. Er bod Adda ac Efa'n parhau i fod yn bobl ar lun a delw Duw, mae'r llun a'r ddelw hon yn awr wedi'u heffeithio gan eu pechod.

### Cymhwyso: delwau llygredig

Mae hanes Adda ac Efa yn ein helpu i ddeall pwy ydym fel pobl a beth yw pwrpas ein bywydau. Mae dau beth penodol y dylid cymhwyso i'n bywydau ni:

1. *Rydym wedi'n creu ar lun a delw Duw*. Mae pob bod dynol wedi'i greu ar lun a delw Duw. Mae Duw wedi'n creu ni i gyd – pwy bynnag ydym – ag urddas, gwerth a statws arbennig. Dyma'r sylfaen gadarn dros gredu fod pob bod dynol yn gydradd â'i gilydd beth bynnag yw ein cefndir, ein tras, ein statws. Mae'r gwirionedd hwn hefyd yn ein hatgoffa fod Duw wedi'n creu ni gyda phwrpas. Nid ein lle ni yw penderfynu beth yw 'pwrpas' ein bywydau; mae Duw wedi'n creu ni gyda phwrpas arbennig. Nod ein bywydau yw mwynhau perthynas gydag ef.
2. *Mae llun a delw Duw sydd arnom wedi'u llygru*. Er ein bod yn mwynhau urddas a gwerth arbennig gan ein bod wedi'n creu ar 'lun a delw' Duw, mae'r llun a'r ddelw sydd arnom wedi'i lygru gan bechod. Mae hyn yn golygu fod pob rhan o'n gwead – ein cyneddfau, ein meddwl, ein henaid, ein dyheadau, ein natur – wedi'u heffeithio gan bechod (gweler Rhufeiniaid pennod 3). Darlun defnyddiol i ddeall hyn yw'r darlun o ddrych sydd wedi cracio. Mae Duw wedi'n creu ni i adlewyrchu ei ogoniant a'i ddaioni fel mae drych yn adlewyrchu goleuni. Dyma sut oedd Adda ac Efa cyn y Cwymp – yn adlewyrchu'n ardderchog sut un yw Duw. Ond, wedi'r Cwymp, mae'r llun a'r ddelw sydd arnom wedi'u sbwylio gan bechod fel drych sydd wedi cracio. Mae'r drych sydd wedi cracio yn parhau i adlewyrchu goleuni ond ni ellir mwyach gweld yr adlewyrchiad yn glir yn y gwydr. Fel pobl, rydym yn parhau i fod wedi'n creu'n urddasol ar lun a delw Duw ond gan fod y llun a'r ddelw sydd arnom wedi'i sbwylio gan bechod – wedi 'cracio' fel petai – rydym nawr yn adlewyrchu Duw mewn ffordd amherffaith.

Mewn gair, rydym yn *ddelwau llygredig*. Ond mae'n newyddion da iawn nad yw stori'r Beibl yn gorffen ar ôl Genesis 3! Newyddion da'r Beibl ydy fod Iesu wedi dod i'r byd fel yr 'Ail Adda' (1 Cor. 15:45) i ddadwneud yr hyn wnaeth yr Adda cyntaf ac i ddelio â'n llygredigaeth trwy dalu'r pris am ein pechod ar y groes. Yn wir, daeth Iesu i'r byd er mwyn creu 'dynoliaeth newydd' gan drwsio'r llun a'r ddelw ddwyfol sydd arnom fel ein bod yn gallu mwynhau perthynas newydd â Duw fel Tad. Mae Iesu'n ein gwahodd ni i ddod ato mewn ffydd heddiw.

**Gwilym Tudur**

# GOHEBIAETH

At Olygydd *Y Tyst*,

Cyfeiriaf at adroddiad Siân Thomas ar dudalennau 1 a 6 o rifyn 27 Gorffennaf 2023, 'Cenwch i'r Arglwydd ganiad newydd ...'

Onid Evan Morgan (Llew Madog), 1846–1920, ac nid D. Vaughan Thomas yw cyfansoddwr y dôn 'Tyddyn Llwyn'?

**GJ, Trefor**

Yr Adran Gydenwadol

AWST 17 2023 RHIF 129/130

# Porthi'r 5000 – a llawer iawn mwy




Do, daeth y tyrfaoedd yn eu miloedd i Foduan ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd, a chafwyd gŵyl hynod lwyddiannus unwaith eto. Bu cystadlu brwd ac egnïol, a braf fu gweld teilyngdod yn y prif gystadlaethau. Cafwyd bwrlwm yn y ddau bafiliwn eleni, heb sôn am y pebyll o'u cwmpas.

Ynghanol hyn i gyd roedd yna dystiolaeth Gristnogol amlwg, gyda phabell enfawr yn cynrychioli'r prif enwadau yng Nghymru o dan nawdd Cytûn, a thua 40 o ddigwyddiadau crefyddol eu naws wedi eu cynnal yn ystod y cyfnod.

Bore Sul, 6 Awst, cafwyd oedfa fendithiol yn y prif bafiliwn, a hynny o dan arweiniad nifer o bobl y fro, gan gynnwys y Parchedig Anna Jane Evans, a draddododd y bregeth, ac Archesgob Andrew John, a'n croesawodd gan gyflwyno thema'r oedfa sef 'Pererindod'. Yn yr un modd cafwyd cymanfa o dan arweiniad Pat Jones gyda'r hwyr, â chanu gorfoleddus yn atseinio o'r pafiliwn.

Ar ganol maes y brifwyl, gerllaw'r prif bafiliwn, roedd pabell Cytûn, neu'n hytrach, 'Pabell yr Eglwysi'. Yno o fore tan nos roedd yna groeso i bawb, digon o de a choffi a phum mil o deisennau cri – pob un ohonynt wedi ei bwyta cyn nos Sadwrn! Cynhaliwyd oedfa yno bob bore, a diolch am gymorth gweinidogion ac arweinwyr bro'r eisteddfod i gynnal y gwasanaethau hynny.

Braf fu cael croesawu Cadfan Sant atom i gyflwyno sioe ar bedwar achlysur yn ystod yr wythnos. Diolch am ddawn arbennig Llion Williams wrth iddo ein cyflwyno i fywyd a gwaith Cadfan, mewn sioe hwyliog i blant a phawb o bob oed.

Partneriaeth yw'r babell bob tro. Rydym yn hynod ddiolchgar am yr holl help a gafwyd gan wirfoddolwyr, ac yn gwerthfawrogi cyfraniad arbennig y 150 o blith yr eglwysi a fu'n helpu drwy gario a symud offer a byrddau, gosod baneri ac addurno, gweini te a choffi (a Welsh *cakes*), glanhau'r stondin, arwain oedfaon, rhannu fferins, cynnal gwaith plant, trefnu sgyrsiau a lansiadau, gosod blodau, a llawer o bethau eraill. Heb os, roedd yna werthfawrogiad o'r cyfan a wnaed gan garedigion yr eglwysi'n darparu gofod croesawgar i bawb. Braf hefyd oedd cael cwmni Cymorth Cristnogol, Cymdeithas y Beibl, Cyngor yr Ysgolion Sul a Farming Crisis Network yn y babell gydol yr wythnos, yn cynnig blas ar genhadaeth ymarferol ar waith yn y gymuned.

Lansiwyd nifer o gyfrolau yn y babell yn ystod yr wythnos, gan gynnwys *Cysuro'r Claf* gan Eric Jones, *Ffenestri Gobaith* gan John Emyr, *Gwasanaethu'r Duw Byw* gan

(parhad ar y dudalen nesaf)

*Porthi'r 5000 – a llawer iawn mwy*
*(parhad o dudalen 1)*

Dafydd Andrew Jones a *Lilïau Tân* gan Rhiannon Lloyd ac Arfon Jones. Byddwn yn rhoi mwy o sylw i'r cyfrolau hyn dros yr wythnosau nesaf.

Lansiwyd nifer o ymgyrchoedd hefyd, yn cynnwys dau gan Gymorth Cristnogol, sef apêl arbennig gan yr Annibynwyr a chan y Bedyddwyr, a chafwyd cyfle i ddiolch i Eglwys Bresbyteraidd Cymru am godi'r swm o £150,000 drwy ei hapêl 'Hadau Gobaith'. Rhoddwyd sylw hefyd i ymgyrch Deiseb Heddwch Nain / Mam-gu, a chafwyd gair gan Andrew Sully, pennaeth gweithredol Cymorth Cristnogol ar 'Golled ac Ennill'. Lansiwyd ffilm newydd *73* gan Gwyn Rhydderch yn sôn am fwrlwm ysbrydol haf 1973 yng Nghymru, ac mae modd gwylio'r ffilm ar Youtube erbyn hyn: https://youtu.be/eVEVPYGojao.

Galwodd nifer o gorau a phartïon heibio'r babell hefyd – rhai er mwyn rhoi perfformiad, Côr Cofnod o Gaernarfon a Chôr y Gadeirlan, Bangor, er enghraifft, a bu corau eraill yn defnyddio'r gofod i ymarfer cyn cystadlu.

Nos Fercher, 9 Awst, cafwyd darlith er cof am y Parch. Lloyd Jones yn Eglwys Clynnog ar y testun "Dringo'r ail fynydd: y dyfodol i eciwmeniaeth yng Nghymru?" Roedd hi'n briodol mai'r Parch. Siôn Brynach fel Prif Weithredwr newydd Cytûn a ffrind i Lloyd a gafodd fraint o draddodi'r ddarlith, ac fe gyflwynwyd crynodeb ohoni ganddo hefyd ym mhabell Cytûn y diwrnod canlynol.

Gobeithio bod y babell wedi bod yn gyfrwng i ni fel Cristnogion ac eglwysi rannu cariad Crist ag eraill, a'n bod wedi calonogi pawb a drodd i mewn atom.

*Aled Davies*




**Llongyfarchiadau calonnog i un o olygyddion *Cenn@d*, sef Aled Davies, ar gael ei urddo i'r Orsedd ar fore Gwener yr Eisteddfod. Derbyniodd Aled y wisg werdd am ei gyfraniad i'w gymuned ac i'r byd crefyddol yng Nghymru mewn amryfal ffyrdd. Ac yntau'n gyfarwyddwr Cyhoeddiadau'r Gair a'r Cyngor Ysgolion Sul, mae'n gwbl addas y bydd yn cael ei adnabod yng Ngorsedd fel Aled Ysgol Sul. Enw gwych, Aled!**



Llun gan Lona Evans

# Dyfyniadau o lyfr Phil Wyman, *Love Big or Go Home*

### Cyflwyniad


Bu Phil Wyman yn dod yn ôl ac ymlaen i Gymru am flynyddoedd lawer a daeth yn gyfaill da i nifer o bobl yma. Yn fwyaf diweddar, teimlodd alwad i ddod yma i weinidogaethu. Fel pob rhan arall o'i fywyd, roedd gweinidogaeth Phil yn 'wahanol'. Roedd ganddo'r ddawn i gyffwrdd bywydau pobl na fyddai byth yn dychmygu tywyllu drws capel mewn gwyliau gwahanol ym mhob cwr o'r byd.

Roedd ganddo hefyd bersbectif gwahanol, un oedd yn amlwg wedi ei ddylanwadu gan ei brofiadau bywyd a'i brofiadau eglwysig, oedd ddim bob amser yn rhai cadarnhaol. Mae ei gyfrol, a gyhoeddwyd tua'r un adeg â'i farwolaeth gynnar, annisgwyl, yn esbonio'r persbectif hwnnw.

Mae tueddiad ynom fel Cymru i fod yn fewnblyg ac yn amharod i wrando ar leisiau o ddiwylliannau eraill. Wel, roedd Phil wedi dod atom ni i weinidogaethu yng Nghymru ac i wneud hynny trwy gyfrwng y Gymraeg. Felly, roedd yn deall mwy amdanom ni nag y byddem yn ei feddwl.

Dyma rai dyfyniadau o'i lyfr diweddar *Love Big or Go Home*. Rwy'n eu rhannu yma i roi cyfle i ni'r darllenwyr gael ein herio gan lais gwahanol. Yn amlwg, mae'r sylwadau'n dod o gyd-destun eglwysig gwahanol ond rwy'n credu bod cyfrifoldeb arnom i wrando ac i ofyn – tybed a yw Duw yn dweud rhywbeth wrthym yng ngeiriau'r dyn hoffus, cariadus, gwahanol hwn?

*Aled Jones*






### Gwasanaethu

Roedd yn beth cyffredin yng nghylchoedd Calvary Chapel yr 1980au i glywed pobl ifanc yn dweud nad oeddent yn 'teimlo arweiniad' i wneud rhai tasgau gweinidogaethol. Yn hyn o beth, roeddent yn golygu nad oeddent yn teimlo bod Ysbryd Duw yn eu hannog i gymryd rhan mewn tasgau penodol o fewn yr eglwys. Yn aml, roedd hyn mewn ymateb i dasgau fel glanhau, cynorthwyo gyda gweinidogaeth plant, neu gymryd rhan mewn estyn allan i efengylu. Cefais fy rhyfeddu bod ysbryd Duw yn cefnogi cymaint o bobl yn y pethau nad oeddent yn eu hoffi neu'n caniatáu iddynt osgoi pethau oedd yn ddiflas, yn anghyfforddus ac yn golygu ymdrech. Efallai fod yr 80au, a gafodd ei alw yn ddegawd trachwant, wedi gwthio'i werthoedd ar ein hefengylyddiaeth. Ac mae'n ymddangos y byddai'r degawd trachwant yn ymestyn am ddegawdau lawer.

Felly, tra oedd pobl eraill o fy oedran i'n disgwyl i Ysbryd Duw siarad gyda nhw neu'n rhoi arwydd iddynt, yn syml iawn, fe wnes i droi fy llaw at y tasgau oedd o 'mlaen i. Fe wnes i lanhau'r toiledau neu ddefnyddio'r *vacuum cleaner*. A dweud y gwir, ar fwy nag un achlysur, fe wnes i gyrraedd i lanhau a chanfod bod y person oedd i fod i agor y capel heb gyrraedd, ond roeddwn yn gwybod bod ffenest gefn oedd ddim yn cloi'n iawn. Felly, fe ddringais i fewn drwy ffenest y stafell molchi.

Mae'n debyg fod hynny'n golygu mod i wedi torri i mewn i'r capel i lanhau'r toiledau. Efallai mai fi yw'r unig berson i wneud hynny yn hanes yr eglwys, a byddwn yn dychmygu mai dyna'r math o leidr y byddai llawer o weinidogion yn dymuno'u gweld yn torri i mewn i'w capeli. Mae llawer o bobl yn gadael eu baw yn y capel ond mi wnes i dorri i mewn i'r capel i lanhau'r baw.

### Deall yr angen o'n cwmpas

'Roedd gweld tyrfaoedd o bobl yn ei gyffwrdd i'r byw, am eu bod fel defaid heb fugail, ar goll ac yn gwbl ddiymadferth.' (Mathew 9:36; beibl.net)

Mae pobl ym mhobman yn chwilio. Mae rhai'n chwilio am ystyr. Mae rhai'n chwilio am ryw gyflawniad drwy lwyddiant neu enwogrwydd. Mae rhai'n chwilio am *panacea* hapusrwydd. Mae rhai'n chwilio amdanynt eu hunain fel petasent wedi bod ar goll ac wedi eu gwahanu oddi wrth eu meddyliau, eu calonnau a'u cyrff. Pan ydym yn edrych dros dirwedd profiad cymdeithas, mae'n ymddangos fel ymchwydd sydd bron yn wyllt, ac mae pobl sy'n cymryd mantais o'r gwylltineb hwnnw drwy gynnig atebion ar gyfer bron pob dim y gallech fod yn chwilio amdano.

Roedd Iesu'n medru darllen calon ei amser ef. Fe edrychodd ar y dorf ac adnabod ymrafael o fewn gwead cymdeithasol diwylliant Hebreig y ganrif gyntaf. Roedd pobl yr adeg honno fel pobl nawr. Doedd ganddynt ddim cyfeiriad. Fe glywodd Iesu eu calonnau di-fugail yn brefu pan edrychodd ar draws y trefi a'r pentrefi.

Mae athronwyr, seicolegwyr a diwinyddion wedi adnabod y chwilio hwn, ac wedi ceisio'i ddiffinio – gan gael eu gyrru'n aml gan yr un awydd am ateb â'r gweddill ohonom. Disgrifiodd Awstin Sant o Hippo ffyrdd troellog y galon ddynol: 'Fe'n gwnest ni ar dy gyfer dy hun, O Arglwydd, ac ni all ein calonnau orffwys nes iddynt orffwys ynot Ti.'

### Ymestyn ein cylch o gyfeillion

Yn ôl Iesu, does dim byd yn arbennig am wneud ffrindiau gyda phobl sy'n debyg i chi. Nid yw gofalu am deulu yn rhywbeth sydd y tu hwnt i'r disgwyl, a does dim byd arbennig o gwbl am fod yn dda wrth ffrindiau neu bobl sy'n edrych ac yn ymddwyn yn debyg i ni. Dyma ddisgwyliadau syml bywyd bob dydd. Mae Iesu'n siarad yn syml am hyn ac yn dweud, 'Pam dylech chi gael gwobr am garu'r bobl hynny sy'n eich caru chi? Onid ydy hyd yn oed y rhai sy'n casglu trethi i Rufain yn gwneud cymaint â hynny?' (Mathew 5:46; beibl.net)

Y broblem gyda chamu allan o'r fan lle rydym yn gyfforddus yw ein bod yn dechrau dod wyneb yn wyneb â'n hofn o'r hyn nad ydym yn ei wybod. Mae lletygarwch Cristnogol a chariad yn ein gwthio rywfaint yn agosach at dir rydym yn ei ystyried yn beryglus. Mae'n herio ein hofn drwy ofyn i ni dreulio amser mewn llefydd nad ydym yn eu hadnabod ymysg pobl nad ydym yn eu hadnabod.

### Caru eraill

Ers blynyddoedd, rwyf wedi clywed pobl yn dweud o'r pulpud y medrwch garu rhywun heb ei hoffi. Y tro cyntaf i mi glywed hyn yn cael ei ddweud, roeddwn yn meddwl ei fod yn wrthun. Yn fy meddwl i, mae hoffi pobl yn gam cyntaf tuag at eu caru.

Mae gan bron pob un ohonom grwpiau ac is-ddiwylliannau yr ydym yn amheus ohonynt neu rydym yn ddilornus ohonynt i raddau. Mae fy rhagfarn bersonol i'n fy arwain i beidio ag ymddiried mewn pobl sydd wedi treulio'u bywydau yng nghyd-destun arweinyddiaeth Gristnogol broffesiynol. Ydw, rwy'n deall bod rhagrith dweud hynny'n sefyll allan fel ci mewn sioe gathod, achos rwyf wedi bod yn weinidog am dros ddeugain mlynedd. Efallai mai dyna'n union pam rwy'n teimlo fel hyn. Rwyf wedi gweld ochr dywyll crefydd, hyd yn oed yng nghanol pethau gwych sydd wedi digwydd mewn cyd-destunau crefyddol. Rwyf wedi bod yn destun cyhuddiadau twyllodrus ac arweinyddion enwadol drwg yn cuddio'r tu ôl i benderfyniadau gwael o swyddfa fawr.

O ganlyniad, rwy'n hynod o sensitif i anonestrwydd a dylanwadu'n amhriodol. Mae hyn yn beth da, ond mae'n gallu troi'n beth drwg yn rhy fuan. Weithiau, rwy'n dal fy agweddau drwg innau cyn iddynt fy nal a

*(parhad ar y dudalen nesaf)*

**Dyfyniadau o lyfr Phil Wyman,**
***Love Big or Go Home***
*(parhad o dudalen 3)*

throi'n ymddygiad drwg sy'n cael ei gymell mewn ymateb. Ar adegau eraill, rwy'n sicr fy mod yn gweld pethau sydd ddim yna ac wedyn yn ymateb yn amhriodol.

### Caru a thystiolaethu

Pan fyddwn yn caru'n afradlon, mae pobl yn cael eu denu atom ac mae sgyrsiau am ysbrydolrwydd yn digwydd yn naturiol. Dywedodd yr Apostol Pedr wrthym: 'Byddwch barod bob amser i roi ateb i bwy bynnag sy'n gofyn i chi esbonio beth ydy'r gobaith sydd gynnoch chi' (1 Pedr 3:15; beibl.net). Ond nid oes gan y rhan fwyaf ohonom gyfeillion sydd am holi pam rydym mor obeithiol. Nid oes gan bobl rydym yn eu hadnabod sydd ddim yn Gristnogion unrhyw ddiddordeb mewn ysbrydolrwydd, ond mae hyn yn newid pan fyddwn yn cynnig cariad diamod ac yn modelu cyfeillgarwch sy'n para.

Mae diddordeb go iawn yn datblygu pan fyddwn yn treulio amser gyda'r bobl y mae eraill yn eu hosgoi. Mae byw'r bywyd Cristnogol anturus hwn yn codi cwestiynau. Pan ydych yn *weirdo* cariadus, mae pobl am wybod beth sydd yn eich gyrru. Fe ddaw ein bywydau'n llyfrau stori sydd o ddiddordeb mawr pan fyddwn yn cerdded ar ffin yr hyn na ellir ei feddwl. Pan fyddwn yn treulio amser gyda phobl y mae eraill prin yn medru eu dioddef, rydym yn mynd i lefydd na all eraill ddim ond darllen amdanynt. Pan fyddwn yn ymestyn ein hunain mewn ffyrdd na all pobl eraill eu dychmygu, rydym yn dod yn Llyfr Actau'r Apostolion wedi ei ysgrifennu ar gyfer pobl heddiw, a byddant yn awyddus i wrando ar ein straeon.

### Ffydd fel teulu

Nid yw'r ffactorau yr ydym yn eu beio am y chwalfa mewn perthnasau teuluol yn ddim byd newydd. Efallai eu bod yn cael eu hamlygu mewn ffyrdd gwahanol, a hyd yn oed yn fwy creadigol nag yn y cenedlaethau a fu, ond yr un peth ydynt yn eu hanfod. Mewn dinasoedd ar draws y byd, mae cartéls cyffuriau a gangiau wedi llenwi'r gwagle oedd i fod ar gyfer mamau a thadau. Mae grwpiau crefyddol eithafol wedi cynnig ystyr bodolaeth sydd yn fwy na'u bywydau eu hunain i ieuenctid y mae'n hawdd creu argraff arnynt.

Oes, mae yna grwpiau a mudiadau sydd wedi dod yn ffynonellau positif ar gyfer y rhai sy'n unig ac wedi eu cam-drin. Dyma lle mae addysg, pobl yn ymgasglu o gwmpas diddordebau, galwedigaethau, grwpiau cefnogi ar gyfer rhai gyda phroblemau dibyniaeth a'r myrdd o wyliau yn cynnig profiadau teuluol gwahanol i eneidiau crwydrol.

Mae gan yr eglwys, sef yr hyn rydym ei alw'n 'deulu ffydd', y potensial grymus i ddod â gobaith i'r unig mewn cymdeithas sy'n ynysu. Yn ogystal â chyfeillgarwch sy'n teimlo'n agos fel teulu, rydym yn ychwanegu cymdeithas Duw, er na ellir ei weld, sydd yn caru.

Yn y cyfnod allweddol yr ydym yn byw ynddo, mae'n rhaid i ni holi ein hunain: sut ydym yn creu'r gwir ymdeimlad o deulu ymysg y ffyddloniaid? Ac eto, wrth ofyn y cwestiwn, mae'n rhaid i ni osgoi dod yn 'deulu' yn niffiniad y Corleones. Rydym i fod yn griw o frodyr a chwiorydd gofalus, cefnogol a moesegol. Nid mob, gang y dylem fod ac ni ddylem chwaith ddisgyn i rywbeth sy'n debyg i'r diffiniad modern o 'gwlt'.





### Tasg amhosib yr Efengyl

Y tu allan i gylchoedd yr eglwys, mae pobl yn cael eu cyflogi i drefnu prosiectau a gwyliau cymunedol, neu i greu calendrau digwyddiadau ar gyfer ysgolion neu sefydliadau gofal oedolion. Mewn sefydliadau digon mawr, gellir disgwyl i bob un o'r rhain fod yn swyddi llawnamser. Mewn prifysgolion, disgwylir i ddarlithwyr fod yn arbenigwyr ar eu pynciau a disgwylir iddynt hefyd ddarparu profiad dysgu gyda'r gorau i'w myfyrwyr. Mae addysgu a'r gwaith cysylltiol sydd ynghlwm ag ef yn waith llawnamser ac mae'r astudio sydd ei angen er mwyn bod yn gyfredol yn gyfran sylweddol o'r gwaith hwnnw. Mae gweinidog cyffredin yn gorfod gwneud y tasgau hynny i gyd fel rhan o'i swydd-ddisgrifiad wythnosol. A disgwylir iddo fod yn arbenigwr ar bopeth, yn ysgrythurol ac yn grefyddol.

Ar ben y rhestr hon o weithgareddau, medrwn ychwanegu gwasanaethu'r gymuned: bwydo'r newynog, cynorthwyo'r tlawd, cynghori'r toredig ac ymweld â'r unig. Mae'r rhain i gyd yn bethau y mae person cyffredin yn disgwyl i weinidog eglwys cyffredin eu cyflawni. Ond mewn sefydliad nid er elw, sydd yn ymateb i ychydig o anghenion yn unig, mae'r tasgau hyn i gyd yn cael eu cyflawni gan bobl wahanol. Mae sefydliad arall yn bwydo'r newynog dros ginio ac efallai'n cynnig gwely i'r digartref. Mae un arall yn darparu mentoriaid ar gyfer plant sydd heb rieni gartref. Mae'r rhestr o raglenni penodol ar gyfer gofal cymdeithasol penodol yn ddiddiwedd. Ac eto, mae eglwysi'n cael eu cyhuddo'n aml nad ydynt yn gwneud digon. Er gwaetha'r ffaith mai sefydliadau bach lleol ydynt, mae disgwyl i eglwysi wneud y pethau hyn i gyd ar gyfer eu cymuned leol ac wedyn edrych ymhellach i'r byd yn ehangach.

Sawl tro dros y blynyddoedd mae pobl wedi gofyn i mi beth roeddwn yn ei wneud yn ystod yr wythnos. Rywsut, roedd pobl yn credu mai'r unig beth yr oedd gweinidogion yn ei wneud oedd cyfarfod ar fore Sul. Ond, fel y gall sawl gweinidog gadarnhau, does dim byd sydd ymhellach o'r gwir."

### Gwaith amhosib yr Eglwys

Pan ydym yn ystyried yr holl bethau sy'n gorfod disgyn i'w lle i greu teulu o ffydd fywiol, rydym yn darganfod bod y gwaith y mae creu cymuned yn ei olygu yn ddigon i'n dychryn. Mae gan bawb, yn cynnwys Cristnogion, ddisgwyliadau amhosib am sut y dylai eglwys weithio. Pan mae'n dod i'r pen, yn aml, mae llawer mwy o bobl yn barod i gwyno a llai yn barod i helpu.

Mae creu cymuned fywiol yn dasg anferthol, ond er mor anodd ydyw rydym i gyd yn cydnabod bod yn rhaid iddo ddigwydd. Dyna pam mae eglwysi'n cael eu mesur yn erbyn safonau amhosib, a hynny gan feirniaid a chefnogwyr.

Mewn paradocs llwyr, hyd yn oed ar ôl ystyried y tasgau hyn na ellir eu cyflawni, ni allwn ostwng ein disgwyliadau, gan mai dyma ddisgwyliadau'r efengyl ei hun. Mae'r efengyl, yn ei hanfod, yn golygu cyflawni'r hyn sy'n amhosib. Mae'r angen dwfn am gymuned gadarn sy'n iacháu mewn byd toredig yn galw am ddisgwyliadau delfrydol. Fel Cristnogion, dylem fod yn ddelfrydwyr clasurol sy'n gobeithio, yn breuddwydio ac yn gweithio am yr amhosib. Ond mae hyn yn golygu bod creu gwir gymuned yn dasg sy'n perthyn i bob person – nid dim ond i weinidogion sy'n cael eu gorlwytho.

Ydy, mae'n dasg anferthol ond dyma fy nhasg innau a dyma dy dasg dithau. Ac efallai – efallai, os yw pawb yn cymryd rhan, fydd hi ddim mor amhosib wedi'r cyfan.

### Her a gwahoddiad

Dylai ein deiet, ein defnydd o'n tafodau, yr oriau rydym yn cysgu, sut ydym yn defnyddio'n harian, lle rydym yn teithio, lle rydym yn byw …. oll fod yn perthyn i Dduw gymaint â ni ein hunain. Neu, fe ddyliwn ddweud, dylent berthyn i Dduw os ydym ni'n perthyn i Dduw ac os ydym wedi ildio'n bywydau iddo.

Ein hanallu i ildio'n consýrn am arian i ddwylo Duw ydy'r un peth sy'n gorthrymu pob rhan arall o'n bywydau. Dyma orthrwm systematig ein ffrind sy'n ein bradychu – yr unben Trindodaidd – Fi, Fy Hun a Fy Hunan. Mae'r unben hwn wedi rheoli bywydau pob person yn systematig ac mae'n ein gyrru ni i gyd i fyw'n hunan-ganolog. O ganlyniad, mae mynd go iawn am Dduw yn gostus. Mae'n costio popeth fu gennym erioed a phopeth a fydd gennym byth. Ond, os ydym ni'n mynd o ddifri am Dduw, fe fydd Ef yn mynd o ddifri amdanom ni.

ADFERIAD RECOVERY cynnal

# Cynnal?

Mae'r gair cynnal yn rhan o'n geirfa fel Cymry Cymraeg – byddwn yn cynnal ein teuluoedd, yn cynnal gwasanaethau Cristnogol, yn cynnal breichiau'n gilydd, yn cynnal gwasanaethau megis y GIG/NHS trwy'n trethi, ac yn cyfrannu'n ariannol i gynnal cymdeithasau ac elusennau sy'n cynorthwyo aelodau mwyaf bregus ein cymdeithas. Ac felly, mor addas yw'r enw Cynnal ar wasanaeth cwnsela arbennig iawn sy'n cynnig cymorth i glerigion, gweinidogion yr Efengyl, gweithwyr Cristnogol, a'u teuluoedd. Wrth eu gwaith mae'r gweithwyr Cristnogol hyn yn gwneud eu gorau i gynnal eraill a chynnig cymorth yr Efengyl, ond, yn eu tro, weithiau mae angen cymorth arnynt hwy eu hunain. Sefydlwyd Cynnal i'r union bwrpas hwnnw.

Mae CYNNAL yn delio â phob math o broblemau ac yn dilyn trywydd cyfannol sy'n mynd i'r afael â'r rhyngweithio sydd rhwng y meddwl, y corff a'r enaid. Mae'r gwasanaeth yn cydnabod dimensiwn ysbrydol bywyd ac, os yn briodol, yn cyfeirio pobl ymhellach tuag at arweiniad ysbrydol arall. Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg.

### Oes galw am y gwasanaeth hwn?

Dywed Wynford Ellis Owen (Ymgynghorydd Cwnsela Arbenigol ac Arweinydd Cynnal) fod galw am help CYNNAL oherwydd gor-ddibyniaeth ar sylwedd, neu ymddygiad niweidiol (alcohol, cyffuriau, gamblo, gorbryder, gwylio pornograffi, caethiwed i chwarae gemau, anhwylderau bwyta, er enghraifft) a'r dioddefaint corfforol, meddyliol, ac ysbrydol anorfod sy'n dilyn. Mae gwaith cefnogi ac ôl-ofal hirdymor unigryw CYNNAL yn parhau, gyda 210 ar y llyfrau ar hyn o bryd, a 79 ohonynt yn achosion byw, cyfredol. Ar gyfartaledd, mae Wynford yn cynnal 35 o sesiynau cwnsela wyneb yn wyneb neu'n rhithiol bob mis, yn ogystal â chefnogi tri grŵp therapi wythnosol, a thri arall yn fisol. Bob mis, ar gyfartaledd, mae 170 yn mynychu'r grwpiau hyn. Mae hefyd yn cefnogi gwasanaeth y Stafell Fyw.

### Yr ochr ymarferol

Mae patrwm gwaith Wynford yn cynnwys cymorth therapi, gwaith cwnsela, eiriolaeth, hyfforddi ac arolygu eraill sy'n ymwneud â'r gwaith, yn ogystal â gwaith gweinyddol. Mae'r gwaith yn digwydd yng Nghaerdydd, Aberystwyth, Caerfyrddin, ac yn y gogledd yn ôl y galw. Ceir sesiynau wyneb yn wyneb, cyfarfodydd rhithiol a rhai hybrid. Yn bwysig iawn hefyd, ceir Grŵp Adfer ar-lein i Gymru gyfan drwy gyfrwng y Gymraeg

### Pwy sy'n gwneud y gwaith?

Yn ogystal â'r Cyfarwyddwr, Wynford Elis Owen (sydd wedi cymhwyso fel Ymgynghorydd Cwnsela Proffesiynol), mae pedwar person wedi'u cymhwyso i fod yn wirfoddolwyr gan fodloni criteria Adferiad Recovery (y mudiad ambarél sy'n cynnwys Cynnal) ac wedi derbyn Tystysgrif DBS Uwch. Disgwylir i'r gwirfoddolwyr feddu ar lefel gadarn o wybodaeth ym maes gwaith grŵp, arferion cwnsela, materion iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau, ac maent yn cynorthwyo gydag ochr ymarferol a gweinyddol y gwaith.

Rhaid cyflawni'r gwaith yn y ffordd fwyaf proffesiynol a safonol, ac mae Wynford a'r gweithwyr eraill yn derbyn goruchwyliaeth glinigol gan oruchwyliwr cwnsela Adferiad Recovery yn unol â'r safonau proffesiynol disgwyliedig.

### Yn ychwanegol?

Mae Cynnal yn anfon allan weddïau i'r eglwysi adeg y Nadolig a'r Pasg, ac yn paratoi gwasanaeth arbennig ar gyfer Sul Adferiad Cymru, sef Sul olaf mis Hydref. Cynhelir encil fel estyniad i'r gwaith cwnsela. Thema'r encil diwethaf oedd 'Byw y bywyd Ysbrydoledig' ac astudiwyd Rhaglen Adfer 12 Cam, a 6 Cham Adfer y Stafell Fyw yn ogystal ag egwyddorion allweddol cariad a maddeuant. O ddysgu teimlo ein hemosiynau yn hytrach na'u hofni, gellid dileu pob caethiwed. Yn ei hanfod, mae'n ymwneud â dysgu cofleidio ochr ddu'r enaid. Ni ddylid gohirio neu osgoi pethau mwyach, ond dod o hyd i bŵer sy'n fwy na ni ein hunain i'n helpu i fyw.

Dyma ymateb gan rai o fynychwyr yr encil

- "Nid wyf yn gwybod lle y byddwn wedi bod heb y gwasanaeth hwn. Rwy'n gwerthfawrogi'n fawr yr holl gefnogaeth rwyf wedi'i derbyn."
- "Rwy'n deall mwy am sut rwy'n gweithio'n seicolegol yn dilyn yr encil hwn. Mae'r ddealltwriaeth hon yn fy helpu i ymresymu a derbyn fy ymddygiad. Rwy'n deall pwysigrwydd caru fy hun yn gyntaf."

### Pwy sy'n cynnal Cynnal?

Derbynnir grantiau oddi wrth Eglwys Bresbyteraidd Cymru, yr Eglwys yng Nghymru, Undeb Bedyddwyr Cymru, a hefyd gan rai o gyfundebau a chymanfaoedd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg a'r Bedyddwyr, ac unigolion sy'n gweld pwysigrwydd y gwaith.

Dengys y sylwadau isod pa mor bwysig yw gwaith a chenhadaeth Cynnal.

- "Heb Cynnal rwy'n sicr na fyddwn wedi gallu cario mlaen fel gweinidog wedi i mi ddechrau dioddef gyda 'stress' yn ddiweddar. Alla i ddim diolch digon iddyn nhw."
- "Rydw i mor ddiolchgar fy mod i'n gwella. Heb eich help chi a help Duw fyddwn i ddim yn fyw heddiw, ond rydw i yn fyw, ac mae pethau'n symud i'r cyfeiriad iawn. Diolch o galon!"

Gwerthfawrogir eich cefnogaeth i waith Cynnal o ran eich cyfraniadau ariannol a'ch gweddïau.

Diolch o galon,

*Wynford Ellis Owen*

## Bore arddangos adnoddau a thrafod gwaith plant ac ieuenctid

**Bore Sadwrn, 2 Medi**
**cynhelir arddangosfa o adnoddau**
**yng Nghapel y Crwys, Caerdydd,**
**rhwng 10 a 12 o'r gloch**

Bydd Aled Davies o'r Cyngor Ysgolion Sul yno i drafod a chynghori ar faterion gwaith plant, a hefyd o ran addoliad ac adnoddau i gynnal oedfa ar y Sul. Bydd dewis helaeth o adnoddau ar gael i'w prynu hefyd. Dewch ynghyd i drafod posibiliadau ac i rannu eich profiadau o ran ysgolion Sul. Croeso cynnes i bawb i daro mewn unrhyw adeg rhwng 10 a 12 o'r gloch.

## *Gwasanaethu'r Duw Byw* gan Dafydd Andrew Jones

Fe'ch gwahoddir yn gynnes
i Gapel y Crwys, Caerdydd,
ar gyfer cyfarfod lansio

***Gwasanaethu'r Duw Byw***
**gan Dafydd Andrew Jones**

llawlyfr sy'n cynnig arweiniad ar
stiwardiaeth Gristnogol

bore Sadwrn, 2 Medi, am 11 o'r gloch

Cyhoeddir y gyfrol gan Gyhoeddiadau'r Gair; pris £9.99

Croeso cynnes i bawb

ADNABOD

Cymeriadau'r Hen Destament

ABRAHAM

Cyfres o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

## 36 Trefnu angladd

### Darllen: Genesis 23

(Gweler hefyd *Dehongli Bywyd Abraham*, gan Gareth Lloyd Jones)

Er nad oes perthynas uniongyrchol rhwng diwedd pennod 22 a dechrau pennod 23, mae awdur Genesis am bwysleisio dau beth i gynorthwyo'i ddarllenwyr. Bellach, mae Abraham a Sarah wedi symud yn ôl i Hebron, i'w cartref fel petai yn y wlad ddieithr yma. Mae tua 17 mlynedd wedi mynd heibio ers y prawf ar ufudd-dod Abraham, a bellach mae Sarah yn 127 oed. Gyda llaw, dyma'r unig achlysur yn y Beibl cyfan lle y cawn gyfeiriad at oed gwraig. Yn ychwanegol at hyn, cawn yn adnodau olaf pennod 22 awgrym cryf o'r modd y mae rhagluniaeth am ddiogelu cymar i Isaac, oherwydd gyda geni plant i frawd Abraham, fe glywn mai un o wyresau ei frawd oedd Rebeca.

Beth bynnag am hynny yn awr, sylwch ar ymateb Abraham i farwolaeth Sarah, 'ac aeth Abraham i alaru am Sara, ac wylodd amdani'. Er ei bod mewn oedran rhyfeddol, mae ymateb Abraham yn gwbl ddealladwy; mae'n galaru ac yn wylo. Fel rhai sy'n gyfarwydd â'r profiad o golli, gwyddom fod atgofion – y chwerw a'r melys – yn dwysáu'r emosiwn mewn amser fel hwn. Gall Abraham gofio adegau o lawenydd, fel genedigaeth Isaac, yn ogystal ag adegau o gywilydd, fel y twyllo yn yr Aifft. Yn ddiddorol iawn, dyma'r unig dro y cawn ef yn wylo; er bod ei galon yn torri pan adawodd Lot, pan adawodd Ismael, pan gafwyd galwad i aberthu Isaac, eto, yn y fan hon yn unig y mae'r dagrau'n llifo. Da yw inni gofio, er bod marwolaeth wedi ei choncro, er nad oes ganddo golyn mwy, eto, mae wedi ei glwyfo i'r byw wrth wahanu. Pan safodd Iesu wrth fedd Lasarus, er ei fod yn gwybod beth oedd ar fin digwydd, eto, wyneb yn wyneb â marwoaleth, torrodd i wylo (Ioan 11:35).

Yng nghanol y galaru mae gwaith cwbl naturiol a chyfarwydd yn awr yn gorfod cael ei gyflawni: rhaid gwneud trefniadau i gladdu Sarah. Mae gweddill y bennod yn mynd â ni drwy'r trefniadau cyfreithiol hyn, ac wrth inni eu hystyried, rwy'n meddwl bod un neu ddau o sylwadau cyffredinol o gymorth. Fe gofiwch fod Abraham yn byw yn bell iawn o'i gartref. Yn wir, ochr yn ochr â chlywed am enedigaeth Rebeca ar ddiwedd pennod 22, mae'r holl hanes, yn arbennig yng nghyd-destun marwolaeth Sarah, yn ein hatgoffa pa mor bell yr oedd Abraham wedi mynd. Wrth geisio darn o dir mae'n atgoffa pobl y wlad, 'Dieithryn ac ymdeithydd wyf yn eich mysg; rhowch i mi hawl ar fedd yn eich plith, er mwyn imi gael claddu fy marw' (adn. 4).

Er bod y wlad hon wedi ei haddo iddo ef a'i ddisgynyddion mewn addewid gafodd ei hailadrodd, eto, ni ddaw perchnogaeth ohoni nes i Josua arwain y goncwest, a rhoi'r darn yma i Caleb: 'Bendithiodd Josua ef a rhoddodd Hebron yn etifeddiaeth i Caleb fab Jeffunne' (Josua 14:13). A dychwelyd at yr adnodau yn Hebreaid 11, 'Trwy ffydd yr ymfudodd i wlad yr addewid fel i wlad estron, a thrigodd mewn pebyll, fel y gwnaeth Isaac a Jacob, cydetifeddion yr un addewid. Oherwydd yr oedd ef yn disgwyl am ddinas ac iddi sylfeini, a Duw yn bensaer ac yn adeiladydd iddi ... Mewn ffydd y bu farw'r rhai hyn oll, heb fod wedi derbyn yr hyn a addawyd, ond wedi ei weld a'i groesawu o bell, a chyfaddef mai dieithriaid ac ymdeithwyr oeddent ar y ddaear' (Hebreaid 11:9–10,13).

Rhywbeth arall sy'n arwyddocaol i ni yn ein cenhedlaeth yw gofal Abraham wrth ymdrin â chorff marw ei wraig. Roeddwn yn darllen yn ddiweddar am drefniadau angladd sy'n cael eu cymeradwyo oherwydd nad ydynt yn esgor ar gost sylweddol, a braidd yr ydych yn trosglwyddo gofal y corff marw heb fynnu unrhyw wybodaeth am yr hyn a ddigwydd i hwnnw. Peth chwithig i'r Cristion yw'r math hwn o syniad, gan ein bod yn credu yng ngwerth hyd yn oed y meidrol. Gwaith arbennig Duw yw ein creu: 'Clodforaf di, oherwydd yr wyt yn ofnadwy a rhyfeddol, ac y mae dy weithredoedd yn rhyfeddol' (Salm 139:14). Dyma lle y bu teml yr Ysbryd; 'oni wyddoch fod eich corff yn deml i'r Ysbryd Glân sydd ynoch, yr hwn sydd gennych oddi wrth Dduw' (1 Corinthiaid 6:19), ac er ei hau 'mewn llygredigaeth, cyfodir mewn anllygredigaeth. Heuir mewn gwaradwydd, cyfodir mewn gogoniant. Heuir mewn gwendid, cyfodir mewn nerth. Yn gorff anianol yr heuir ef, yn gorff ysbrydol y cyfodir ef' (1 Corinthiaid 15:42–3).

I Abraham, doedd dim yn ormod er sicrhau claddfa, ac mae'n mynd i gost sy'n anrhydeddu'r gwerthwr a thrwy hynny'n diogelu darn o dir i Sarah, iddo yntau, ac yn ddiweddarach i Jacob: 'daeth ei feibion ag ef i wlad Canaan a'i gladdu ym maes Machpela' (Genesis 50:13). Yr un pryd, mae prynu'r darn o dir yma'n arwydd o'i hyder yn addewid Duw y byddai'r wlad yn dod yn eiddo iddo. Fe gofiwch, mae'n siŵr, i Jeremeia, pan gaethgludwyd y genedl, brynu darn o dir ar sail ei hyder y byddai Duw yn adfer y wlad: 'Yna prynais y maes yn Anathoth gan fy nghefnder Hanamel, a phwysais iddo yr arian, dau sicl ar bymtheg ... Oherwydd fel hyn y dywed ARGLWYDD y Lluoedd, Duw Israel, "Prynir eto dai a meysydd a gwinllannoedd yn y tir hwn".' (Jeremeia 32:9,15)

1. Trafodwch y balans ym mywyd y Cristion rhwng galaru ac wylo priodol, ac anogaeth Paul yn 1 Thesaloniaid 4:13: 'rhag ichwi fod yn drallodus, fel y rhelyw sydd heb ddim gobaith'.
2. Wrth feddwl am adnodau 6, 11 a 13, ym mha ffyrdd y byddwn ni'n euog o fanteisio ar garedigrwydd pobl i sicrhau arbediad neu elw personol?
3. Beth mae'r ffordd rydym yn ymdrin â chorff marw yn ei ddweud am ein golwg ar obaith y Cristion?

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 20 Awst, am 7:30yb a 16:30yp**
Trystan Lewis yn cyflwyno detholiad o emynau o gymanfa Bethesda, yr Wyddgrug

**Sul, 20 Awst, am 12yp**
Oedfa sgwrs Bwdistaidd, gyda John Roberts yng nghwmni Anantamani a Prajnavaca

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru
(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

# Golygyddol

## Cadw'r Sabath



Un o hanfodion hanes y creu yn Genesis yw'r Sabath. Ar y seithfed dydd gorffwysodd Duw o'i waith o greu. O ganlyniad i hyn y mae Duw wedi gosod cynsail fod dynoliaeth i dreulio amser yn peidio â gweithio, er mwyn gorffwyso, adnewyddu, gwneud pethau amgen ac yn bennaf i gael amser i feithrin eu perthynas gydag Ef. Y mae gorffwyso cyson yn angenrheidiol i bobl er mwyn byw bywydau iach a chytbwys. Egwyddor sylfaenol sydd wedi mynd ar goll yn nryswch ein prysurdeb cyfoes. (Gweler Genesis 2: 1–3, Exodus 20: 8–11, Lefiticus 23: 3, 32) Roedd hefyd blwyddyn Saboth pob saith mlynedd a phob 50 mlynedd sef 7x7+1 roedd blwyddyn arbennig y Jiwbilî. (Gweler Lefiticus 25: 8–22) Wrth gwrs, fel Cristnogion, Iesu yw ein Saboth ni. Esboniodd Ef inni o'r newydd ystyr y Saboth e.e. Mathew 12: 1–8, Marc 2: 23–28.

### Cyfnod sabothol

O gychwyn mis Medi hyd ddiwedd Tachwedd, y mae aelodau hael Ebeneser, Caerdydd, wedi penderfynu rhoi cyfnod sabothol i mi, gan fy rhyddhau o'm holl ddyletswyddau fel gweinidog. (Yn ôl canllawiau Undeb yr Annibynwyr fe ddylai pob gweinidog gael cyfnod sabothol pob 7 mlynedd. Trefn Feiblaidd iawn!) Diolch o galon iddynt am eu caredigrwydd mawr tuag ataf. Rwyf hefyd o ganlyniad i hyn yn rhoi heibio'r cyfrifoldeb o fod yn brif olygydd *Y Tyst* am yr un cyfnod.

Ond nac ofidiwch oherwydd y mae criw o olygyddion gwadd medrus am ymgymryd â'r gwaith. Gobeithio y bydd y drefn newydd yn chwa o awyr iach i'r wythnosolyn gan ddod a straeon mwy amrywiol a phwysleisiadau gwahanol i'r fei. Bydd y golygyddion hyn yn gyfrifol am un rhifyn o'r *Tyst* pob mis. Diddorol fydd gweld sut mae hyn yn gweithio a pha fodd y bydd yn effeithio ar gynnwys a naws y cyhoeddiad. Y pedwar fydd yn llenwi'r bwlch yw Alun Lenny, Iwan Llewelyn Jones, Owain Llŷr Evans, Gwennan Evans a hynny o dan oruchwyliaeth amryddawn y *sef** Elinor Wyn Reynolds. Diolchaf iddynt am eu parodrwydd i gynorthwyo a dymunaf yn dda iddynt yn yr orchwyl difyr sydd wedi dod i'w rhan.

### Asesu'r *Tyst*

Gyda llaw, y mae panel wedi ei benodi gan yr Undeb i asesu'r *Tyst*. Yn ystod y flwyddyn nesaf byddant yn tafoli ffurf, cynnwys, gweithdrefnau, cynaladwyedd *Y Tyst* er mwyn paratoi ar gyfer y dyfodol. Gobeithir y cyflwynir argymhelliad yng nghyfarfodydd blynyddol yr Undeb yn 2024. Os oes gennych chi farn fel darllenwyr ffyddlon *Y Tyst* am y cynnwys a'r diwyg, byddai'n dda clywed gennych. Anfonwch unrhyw sylwadau i'r cyfeiriad e-bost newydd: tyst@annibynwyr.cymru.

### Testun ymchwil

Fel y crybwyllais o'r blaen, nid llaesu dwylo yw fy mwriad yn ystod y cyfnod sabothol ond treulio amser yn myfyrio ac ymchwilio i ddau faes penodol, sydd wedi bod yn corddi yn fy meddwl ers blynyddoedd, sef tyfiant eglwysig a phlannu cynulleidfaoedd Cymraeg newydd. Roedd y ddeubeth, mewn cyd-destun cwbl wahanol, yn rhan o fy nhraethawd doethuriaeth, sy'n dwyn y teitl 'O'r Sect i'r Enwad – Datblygiad Enwadau Ymneilltuol Cymru 1840–70'. Yn y traethawd hwnnw roeddwn yn astudio llwyddiant a thwf yr eglwysi Ymneilltuol Cymraeg yn ystod y 19eg ganrif mewn cyd-destun Beiblaidd, cymdeithasegol ac ysbrydol. Plannwyd toreth o gynulleidfaoedd newydd, adeiladwyd gormodedd o gapeli ac am gyfnod o dros 100 mlynedd bu'r twf yn rhyfeddol.

### Cwestiynau

Nawr rwy'n gweinidogaethu yn bell ar ôl diwedd y cyfnod hwnnw o dwf, ac yn dyst, fel pawb ohonom, i'r dirywiad ysbrydol mawr. (Rhaid bod yn ofalus o'n defnydd o eiriau fel llwyddiant a ffyniant gan fod hynny'n gallu digwydd mewn eglwysi unigol hyd yn oed mewn cyfnod o ddirywiad ystadegol.) Byddaf yn gofyn cwestiynau fel, beth yw'r ffordd orau i ymateb i'n sefyllfa fel Cristnogion yng Nghymru heddiw? Pa gamau sydd angen eu gwneud ar fyrder? I ba gyfeiriad y mae'r Ysbryd Glân yn ein harwain? Ble mae'r teuluoedd a'r bobl ifanc? Mae rhai o'r atebion yn amlwg ond mae gwir angen myfyrio a meddwl am ein tystiolaeth Gristnogol nawr a gweithredu cyn gynted â phosibl.

Mae'r cyfnod o dri mis yn fyr ond bwriadaf wneud o leiaf 4 peth sef:

1. Cyfweld ag arweinyddion mewn eglwysi sy'n tyfu.
2. Siarad gyda rhai sydd wedi plannu cynulleidfaoedd newydd yn ddiweddar.
3. Darllen llenyddiaeth addas.
4. Cychwyn blog er mwyn rhannu'n wythnosol yr hyn a welaf ac a ddysgaf, gydag unrhyw un fydd â diddordeb.

Ar ddiwedd y cyfnod, os Duw a'i myn, byddaf yn cyhoeddi fy argraffiadau fel y gall eraill elwa o haelioni Eglwys Ebeneser.

Os yw'r sylwadau uchod wedi ennyn chwilfrydedd ynoch a'ch bod am rannu gweledigaeth, sylwadau, llyfryddiaeth, rhwystredigaethau, strategaethau, gyda mi, gallwch wneud hynny trwy atudur@gmail.com. Byddwn yn eithriadol o ddiolchgar.

Ond yn y diwedd gwaith Duw yw hwn ac felly nid ydym byth yn gwangalonni. Gweision ydym ni sy'n cael y fraint aruthrol o gredu, byw a chyhoeddi'r newyddion da am Iesu Grist ein Harglwydd a'n Gwaredwr i'r Gymru Gymraeg yn 2023. Ymlaen!

'Yn noeth y deuthum o groth fy mam, ac yn noeth y dychwelaf yno. Yr ARGLWYDD a roddodd, a'r ARGLWYDD a ddygodd ymaith. Bendigedig fyddo enw'r ARGLWYDD.'
(Job 1:21)

**Alun Tudur**

***Gair Rwmaneg yw *sef* (yngenir seff) am arweinydd neu y pennaeth.**

# GOHEBIAETH

## YMATEB

Diolch yn fawr iawn am DYSTIOLAETH y brawd yn *Y Tyst*; 6 Gorffennaf, 2023, tudalen 7.

Dim ond yn fy ieuenctid y clywais ac y gwelais rywun yn rhannu ei dystiolaeth yn y capel. Cofiaf gael cyfle mewn Cwrdd Chwarter i ofyn i ddwy fenyw os oedd ganddynt dystiolaeth. Bu rhaid i mi esbonio iddynt beth oeddwn yn ei feddwl. Wrth ymateb fe gochodd y ddwy, a dywedodd un ohonynt, 'Cefais fy magu yn ein tŷ ni i fynd i'r capel.' Ond yma yn *Y Tyst* fe roddodd y brawd ei DYSTIOLAETH, o ddifri. Rhannodd ac esboniodd sut a lle y daeth yn Gristion gan ddweud wrthym am ei brofiad.

Cofiaf flynyddoedd maith yn ôl fy mod yn pregethu yng Nghaernarfon ond gwaetha'r modd roeddwn wedi gadael fy nodiadau gartref. Felly yn lle pregethu, dywedais wrth y gynulleidfa sut y deuthum yn Gristion. Ychydig ddyddiau yn ddiweddarach gofynnodd gweinidog arall i mi, 'Beth oedd dy bregeth?' Wedi dweud wrtho, dywedodd wrthyf, 'Dylet ti fod wedi pregethu.'


Tybed na ddylid rhoi amser yn ein HEGLWYSI ni heddiw i ni rannu ein profiad gydag eraill?

**Y Parchedig Wena Parry**

# CLWB SUL TABERNACL PENCADER

Ar fore Sul 11 Mehefin teithiodd rhai o aelodau ysgol Sul Tabernacl Pencader i gapel Ebeneser Castellnewydd Emlyn i ymuno â'r plant yn y gymanfa ganu dan arweiniad Mrs Carol Davies, Henllan. Yn dilyn cymanfa'r bore aeth y plant i'r lle chwarae yng Nghastellnewydd Emlyn i gael picnic, ac i chwarae gyda'i gilydd ar y cyfarpar yn y tywydd heulog cynnes.






*John Henri ac Elsi Jên mewn Braille*

## Prosiect Sensi

Bore Sul 25 Mehefin 25 roedd y wers yn wahanol i'r arfer. Croesawyd Mair Jones sydd yn gyfarwyddwraig Prosiect Sensi atom i sôn am ei gwaith pob dydd. Swydd ddyddiol Mair yw dysgu plant sydd yn ddall neu yn rhannol ddall yn Sir Benfro a helpu teuluoedd i ddygymod a'r sefyllfa. Estynnwyd gair o groeso i Mair gan Celyn ac Elsi, ac arweiniwyd mewn gweddi gan Magi a Gruffydd.

Bu'r awr a hanner yn addysgiadol iawn, gyda'r plant yn gwisgo mwgwd dros eu llygaid i wneud gwahanol bethau e.e. rhoi ymenyn ar fara, a sylweddoli pa mor anodd yw gwneud unrhyw beth heb fod yn gallu gweld. Siaradodd Mair a dangosodd enghreifftiau o Braille a bu'r plant yn gwneud geiriau yn Braille drwy ddefnyddio Lego Braille.

Bu'r plant yn chwarae pêl oedd a chlychau tu fewn iddi, hynny yn galluogi plant dall i synhwyro ble oedd y bêl drwy glywed sŵn y clychau. Er mwyn rhedeg ras roedd y plant gyda mwgwd ar eu llygaid yn dilyn rhaff oedd wedi ei chlymu i'r wal ar y ddau ben. Diolchwyd i Mair gan Zusia ac Anest am gyflwyniad diddorol ac addysgiadol.

**Haulwen Lewis**



*Tabernacl mewn Braille*

# Paid â gwneud i neb yr hyn sydd gas gennyt – parhad

Ond, gwelaf un anhawster. Teimla person weithiau fod cyfiawnder yn gofyn iddo wneud i arall yr hyn yn sicr ni fynnai ei wneud iddo ei hun. A awn i sibrwd yng nghlust y barnwr: 'Paid â gwneud i neb yr hyn sydd gas gennyt.' Y mae un ffordd allan o'r dryswch, sef y dylem ddymuno lles arall o flaen ei gysur.

Ond ni welaf yr anhawster hwn ynglŷn â rheol euraid Iesu. Nid 'Paid' sydd yn honno, ond 'Gwna'. 'Pa beth bynnag y dymunwch i ddynion ei wneud i chwi, gwnewch chwithau felly iddynt hwy, hyn yw'r Gyfraith a'r proffwydi.'


Cynigiaf welliant felly ar hen anogaeth Tobit: Y peth sydd hyfryd gennyt dy hun, gwna i eraill. Byddi'n gymwynaswr heb dy fath, os gwnei!

**(OLIE)**

## Cwrdd Chwarter Gorllewin Caerfyrddin

Dewch i glywed hanes arwrol Brwydr y Preselau 1946-48

gan Hefin Wyn yng nghapel Bwlch-y-corn, ger Rhydargaeau SA31 7AP 7.00 nos Iau 14 Medi



**Ar ôl yr Ail Ryfel Byd ceisiodd y fyddin feddiannu mynyddoedd y Preselau i'w troi'n faes ymarfer tanciau. Ond cawsant eu stopio gan ymgyrch y ffermwyr o dan arweiniad y gweinidogion lleol.**

**Bydd sesiwn gyntaf y Cwrdd Chwarter am 4.00. Gwledd yn y festri wedyn gan Gegin Fach y Wlad a chyfle i fwynhau'r lleoliad hyfryd hwn cyn y cwrdd am 7.00. Croeso cynnes i bawb.**

(Llun: Y Preselau pell o lethrau Bwlch-y-corn)

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# PERERINDOD I HENDY-GWYN A'R PRESELAU

*Dyma ran gyntaf hanes pererindod Gofalaeth Bröydd Myrddin gan y Parchg Emyr Gwyn Evans.*

Ar ein pererindod flynyddol eleni teithiodd aelodau eglwysi Gofalaeth Bröydd Myrddin i Hendy-gwyn ar Daf ac ymlaen i'r Preselau yn Sir Benfro. Cychwynnwyd y daith yn cyd-addoli yng nghapel Tabernacl, Hendy-gwyn dan arweiniad gweinidog yr eglwys y Parchg Guto Llywelyn. Cawsom bregeth ragorol ganddo ar y Degfed Gorchymyn, 'Na chwennych,' gyda sylwadau ar ffolineb trachwantu yn cydblethu gyda neges dameg Iesu am yr ynfytyn cyfoethog. Roedd pawb wedi dod â'i becyn bwyd a bu chwiorydd yr eglwys mor garedig â pharatoi paned i ni ac i'w haelodau yn y festri lle cawsom gymdeithasu'n braf gyda'n gilydd wedi'r oedfa.

### Cyfreithiau gwâr y Cymry

Yna aethom i ymweld â chanolfan a gerddi Hywel Dda yn y dref. Yn ôl yr hanesydd John Davies roedd yng Nghyfraith Hywel 'elfennau o drugaredd, o synnwyr cyffredin ac o barch at hawliau gwragedd a phlant, y byddai Cyfraith Lloegr yn amddifad ohonynt tan yn ddiweddar iawn.' Fe'n goleuwyd am hyn gan Mrs Margaret Hughes wnaeth ein tywys a'n harwain i synhwyro doethineb y cyfreithiau Cymreig wrth iddi, yn ei ffordd hamddenol, ein cyflwyno a'n tywys o amgylch y gerddi a'r ganolfan.

### Brwydr Merched Beca

Ymlaen wedyn ar ein taith i'r Preselau. Diben y daith ddiwylliannol oedd ein hatgoffa am ddwy o frwydrau mawr Cymry'r ardal yn ystod y ddwy ganrif ddiwethaf gan roi sylw i gyfraniad rhai o feirdd amlwg y fro. Yn yr Efail-wen gwnaethom oedi wrth ymyl y garreg goffa yn y fan lle chwalwyd y cyntaf o'r tollbyrth ar 13 Mai 1839, sef gweithred roes gychwyn i wrthryfel Beca a'r terfysgoedd arweiniodd at ryddhau ffyrdd y wlad o orthrwm y cwmnïau barus oedd yn rheoli priffyrdd y cyfnod.

### Mawrion Pentregalar

Ym Mhentregalar, wrth nesu at Grymych, fe'n hatgoffwyd mai yn y pentref bach hwn y maged o leiaf dri o fawrion Cymru ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg sef Thomas Rees, pregethwr a diwinydd, prifathro Coleg Bala-Bangor a heddychwr mawr yn ei ddydd; D. J. Davies Capel Als, Llanelli, fel caiff ei gofio; gweinidog, bardd a phrifardd cadeiriol Eisteddfod Genedlaethol Aberafan yn 1932 ac emynydd adnabyddus, a T. E. Nicholas, bardd, comiwnydd a Christion. Ac wrth y gofeb i Niclas y Glais, wrth droed Foel Dyrch, gydag arni y geiriau, 'Bardd y werin ydwyf fi' cawson weld yr olygfa ysblennydd o'r mur oedd yn gefndir i febyd Waldo y cyfeiriodd ato yn ei gerdd 'Preseli', 'Mur fy mebyd, Foel Drigarn, Carn-gyfrwy, Tal Mynydd, wrth fy nghefn ym mhob annibyniaeth barn' sef y llinellau sydd i'w gweld heddiw ar Garreg Waldo ar y rhos ym Mynachlog-ddu. Ond yn hytrach na mynd i lawr y ffordd i'r pentref bu rhaid i'r bws droi rownd a dychwelyd i Glandy-cross ar ein ffordd i Fynachlog-ddu. Ar ôl cyrraedd cawsom doriad yno ym mynwent Bethel, capel y Bedyddwyr, er mwyn gweld yn neilltuol gerrig beddau Twm Carnabwth, sef Thomas Rees, arweinydd Merched Beca; bedd W. R. Evans, (W.R. ar lafar gwlad) bardd, ysgolfeistr a sefydlydd y parti enwog Bois y Frenni, gydag arno englyn hyfryd i'w gofio, yn nhafodiaith ardal y Preselau, gan Dic Jones; ac o'i flaen yn y fynwent carreg fedd dau o aelodau ffyddlon Bethel yn eu dydd sef Lloyd a Beti Davies, Capel, sef carreg fedd hyfryd o faen carreg las y Preselau, sydd hefyd yng ngwneuthuriad muriau capel Bethel.

*Bydd yr ail ran yn y rhifyn nesaf o'r* Tyst





**EGLWYS RYDD HAMPSTEAD GARDEN SUBURB**

Central Square, Llundain NW11 7AG

Mae croeso cynnes i bawb i ymuno gyda ni yn

**OEDFA SEFYDLU'R PARCH ALED JONES**

yn yr Eglwys Rydd ar

**brynhawn Sadwrn 2 Medi am 2 o'r gloch**

Darperir lluniaeth wedi'r oedfa

**Drysau Agored Tabernacl Porth-cawl dydd Sadwrn, 2 Medi, 10yb–4yp**

Dewch i ymweld â chapel y Tabernacl Porth-cawl

* Capel hanesyddol â phensaernïaeth art deco
* Gweithgareddau hwyliog i'r teulu cyfan
* Lluniaeth a chyfle i gwrdd â'n haelodau a'r gymuned leol Gymraeg

Mwy o fanylion ar ein gwefan:
GlannauOgwr.cymru

Trefnwyd fel rhan o ŵyl
Drysau Agored Cadw 2023

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*